# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD ADRA

**Pwy ydym ni?**

Mae Adra (Tai) Cyf yn Gymdeithas Gofrestredig o dan y Ddeddf Cwmnïau Cymdeithasau Budd Cymunedol 2014 wedi ei gofrestru gyda rheolau elusennol ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Mae Adra wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac yn cael ei reoleiddio ganddynt. Ni fydd Adra yn masnachu i wneud elw. Fel LCC, ein prif bwrpas yw darparu tai rhent fforddiadwy.

Bydd y Polisi yn gymwys i **Adra (Tai) Cyf** (y Rhiant) ac unrhyw un o'i is-gwmnïau (gan gynnwys **Medra Cyf)**.

**Rydym yn cymryd preifatrwydd o ddifri**

Mae Adra fel "rheolydd data" wedi ymrwymo i gadw eich preifatrwydd ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol. Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn eich hysbysu am sut y bydd Adra yn gofalu am eich data personol ac yn egluro eich hawliau preifatrwydd a sut y mae'r gyfraith yn eich diogelu.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ar y cyd gydag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall neu hysbysiad prosesu teg y byddwn yn ei ddarparu ar adegau penodol wrth gasglu neu brosesu data personol amdanoch chi fel eich bod yn llwyr ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio eich data.

Mae Adra yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) mewn perthynas â gwybodaeth bersonol yr ydych yn ei roi i ni ac yn sicrhau nad yw'n cael ei gamddefnyddio. Mae'r Rheoliad yn diffinio cyfres o reolau a chanllawiau y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth ymdrin â'ch gwybodaeth, caiff y rhain eu cyfeirio atynt fel egwyddorion Diogelu Data Cyffredinol, bydd gwybodaeth bersonol yn:

a) cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw mewn perthynas ag unigolion;

b) cael ei gasglu at ddibenion penodedig, eglur a chyfreithlon ac ni chaiff ei brosesu ymhellach mewn ffordd sy'n anghydnaws gyda'r dibenion hynny; ni chaiff prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol eu hystyried yn anghydnaws gyda'r dibenion cychwynnol;

c) ddigonol, perthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran dibenion yr hyn y cawsant eu prosesu yn y lle cyntaf;

d) yn gywir, a lle'n angenrheidiol, yn cael ei ddiweddaru; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth bersonol sy'n anghywir, gyda golwg ar y dibenion y cawsant eu prosesu, yn cael eu dileu neu gywiro heb oedi;

e) cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data am ddim mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion y cafodd yr wybodaeth bersonol ei brosesu; gellir storio gwybodaeth bersonol am gyfnod hirach cyn belled ag y bydd gwybodaeth bersonol ond yn cael ei brosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn amodol ar weithredu'r mesurau sefydliadol a thechnegol priodol sy'n ofynnol yn unol â DPA 2018 er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion;

f) cael ei brosesu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol gwybodaeth bersonol, gan gynnwys diogelu yn erbyn prosesau anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled ddamweiniol, dinistr neu ddifrod gan ddefnyddio mesurau sefydliadol neu dechnegol priodol.

**Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol**

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol pan mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Gan amlaf, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle mae angen i ni berfformio'r contract yr ydym ar fin ymrwymo iddo neu wedi ymrwymo iddo gyda chi
- Lle mae angen er ein budd cyfreithlon i ni (neu fudd rheini sy'n drydydd parti) a'ch buddiannau chi ac nid yw hawliau sylfaenol yn drech na'r buddiannau hynny.
- Lle mae angen i ni gydymffurfio gyda goblygiad cyfreithiol neu reoleiddiol.

**Gwybodaeth a gasglwn gennych chi**

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau, er enghraifft, pan fyddwch yn gwneud cais am dŷ neu pan fyddwch yn dod yn denant. Pan fyddwch yn cysylltu gyda ni efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth amdanoch gan gynnwys eich enw a manylion cyswllt. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth pan fyddwch chi'n cwblhau holiaduron cwsmer gwirfoddol, darparu adborth a chymryd rhan mewn cystadlaethau.

Efallai y byddwn yn casglu, prosesu a storio gwybodaeth fel:

- Enwau, dyddiad geni, rhifau yswiriant gwladol, lluniau, manylion cyswllt a dewisiadau tenantiaid
- Data demograffig tenant (e.e. crefydd neu gred, ethnigrwydd)
- Geirda gan landlordiaid, darparwyr cefnogaeth neu bobl eraill sy'n nodi addasrwydd yr ymgeisydd fel tenant
- Manylion aelodau eraill y teulu neu bobl yn byw yn ein heiddo.
- Taliadau Rhent sydd wedi eu gwneud
- Rhagamcan Incwm a Gwariant
- Ceisiadau am waith trwsio
- Ffurflenni cais neu atgyfeirio

- Cytundebau tenantiaeth
- Iechyd corfforol ac iechyd meddwl neu gyflwr;
- Cytundebau cefnogi
- Cynlluniau cefnogi a manylion darparwyr cefnogaeth
- Cwynion am ein gwasanaethau
- Ymatebion i arolygon neu ddigwyddiadau cyfranogi
- Honiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Euogfarnau, achosion a throseddau
- Cyfathrebiadau i'n preswylwyr, defnyddwyr gwasanaeth, asiantaethau eraill neu eiriolwr neu gyfathrebiadau ganddynt
- Recordio galwadau ffôn a wneir gan y gymdeithas a rhai a ddaw i mewn
- Lluniau TCC (os ydych yn byw mewn prosiect llety cefnogol gyda darpariaeth TCC; mae'r systemau TCC yn recordio er mwyn diogelu eich iechyd a diogelwch). Bydd clipiau ffilm yn cael eu cadw am 30 diwrnod oni bai bod ei angen ar gyfer ymchwiliad ac os felly bydd yn cael ei archifo hyd nes y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau a phryd hynny bydd y clip ffilm archif yn cael ei dileu.
- Camera ar y corff (sŵn a gweledol) yn ôl y gofyn (fydd golau ar y camera yn dangos pan mae'r ddyfais yn recordio).
- Recordio sgwrs sydd wedi ei gymryd gan staff sy'n actifadu eu dyfeisiadau gweithio'n unig

Nid yw’r rhestr hon yn gyflawn, oherwydd ein bod yn cadw cofnodion o’r rhan fwyaf o gysylltiadau sydd gennym â chi, neu amdanoch chi, ac rydym yn prosesu’r wybodaeth hon fel y gallwn ddarparu gwasanaethau i chi.

Efallai y byddwn yn rhoi marciwr ar eich gwybodaeth (er enghraifft, mewn perthynas â pha mor fregus ydych chi neu statws iechyd neu rybuddion rhybudd perthnasol) er mwyn ein galluogi i deilwra a darparu gwasanaethau i chi. Mae'n bwysig eich bod chi yn dweud wrthym am unrhyw newid yn eich gwybodaeth bersonol.

Wrth ddefnyddio’r wefan ([www.adra.co.uk](http://www.adra.co.uk)) ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol heblaw am eich cyfeiriad IP, porwr gwe a dyfais yn cael ei gofnodi.

Efallai y bydd Adra yn defnyddio gwefan 3ydd parti i ymgynghori ar farn cwsmeriaid.

**<u>Sut y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth amdanoch chi</u>**

Rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data (DPA 2018). Byddwn yn trin eich gwybodaeth bersonol yn deg ac yn gyfreithlon ac yn sicrhau:

- Bod yr wybodaeth yn cael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig;
- Bod yr wybodaeth yn cael ei ddiweddaru, yn gywir, perthnasol ac nad yw’n ormodol;
- Nad yw’n cael ei gadw’n hirach nag sy’n ofynnol
- Bod yr wybodaeth yn cael ei gadw’n ddiogel

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch i brosesu ceisiadau ar gyfer tai ac i reoli gweithgareddau sy’n berthnasol i’ch tenantiaeth gan gynnwys darpariaeth o wasanaethau i

chi. Efallai y bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei ddarparu yn cael ei rannu gyda thrydydd parti, sy'n ymddwyn ar ein rhan ar gyfer darparu rheolaeth tai a gwasanaethau tenantiaeth neu ar gyfer dibenion eraill sydd wedi eu cymeradwyo gennych chi.

Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda chyflenwyr Trydan a Nwy pan fydd eich tenantiaeth yn cychwyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i chi. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth pwy sy'n byw yn ein tai rhent o dan Reoliadau'r Diwydiant Dŵr (gwybodaeth am Ddeiliaid sydd ddim yn berchnogion) (yn Llawn neu'n Rhannol yng Nghymru) 2014. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â chyrff statudol fel yr Awdurdod Lleol , yn ymwneud â materion fel budd-dal tai, Treth y Cyngor a Gwasanaethau Cymdeithasol; a Heddlu Gogledd Cymru at ddibenion canfod trosedd, neu atal trosedd.

Heblaw bod gofyn i chi wneud yn unol â'r gyfraith, ni fyddwn fel arall yn rhannu gwybodaeth bersonol yr ydych yn ei ddarparu i ni heb ein cydsyniad.

**Rhannu eich Gwybodaeth Bersonol**

Bydd mynediad i'ch gwybodaeth bersonol fel arfer yn cael ei gyfyngu i ni ein hunain. Bydd Adra ond yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti gyda'ch cydsyniad chi, fodd bynnag, efallai bydd gofyn i ni weithiau rannu gwybodaeth heb eich caniatâd i gydymffurfio ag unrhyw oblygiad cyfreithiol neu i gyflawni'r dibenion yr oedd wedi'i gyflwyno.

Wrth rannu gwybodaeth bersonol, byddwn yn cydymffurfio â phob agwedd o DPA 2018. Mae gwybodaeth sensitif am iechyd, bywyd rhywiol, hil, crefydd a gweithgaredd troseddol er enghraifft yn ddarostyngedig i fesurau diogelwch arbennig o lym a mesurau cyfrinachedd.

Ni fydd Adra yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU a'r UE oni bai bod diogelwch digonol ar waith, e.e. Aelodaeth o'r Cynllun Tarian Preifatrwydd.

Gofyniad Cyfreithiol

Byddwn yn rhannu gwybodaeth benodol a pherthnasol gydag asiantaethau gorfodaeth gyfreithiol a llywodraethol neu gyrff cyhoeddus lle mae yna ofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny. Gall hyn gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Atal neu ddarganfod trosedd neu dwyll
- Cadw neu erlyn troseddwyr
- Asesu neu gasglu treth neu doll sy'n ddyledus i dollau tramor a chartref
- Rhannu mewn perthynas â gweithgareddau cyfreithiol
- Rhannu mewn perthynas ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolyn, lle mae angen datgelu er mwyn eu hamddiffyn nhw neu eraill rhag niwed difrifol
- At ddibenion ymchwilio ac ystadegau.
- Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth

Efallai y byddwn ni hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol lle mae angen gwneud hynny er mwyn eu cynorthwyo i ymateb i sefyllfa argyfyngus sy'n effeithio chi.

Contractwyr a chyflenwyr

Efallai y byddwn ni hefyd yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda'n cyflenwyr sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau i ni, neu sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan. Enghreifftiau o'r cyflenwyr hynny yw: contractwyr cynnal a chadw arbenigol sy'n gwneud gwaith yng nghartrefi tenantiaid; cwmnïau sy'n ein cynorthwyo i yrru rhybuddion a llythyrau, darparwyr cyfleustodau er mwyn darparu parhad busnes i chi a'r gwasanaeth tân. Y data a rennir yw'r wybodaeth benodol y mae'r cyflenwr ei angen er mwyn gwneud eu tasg, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein goblygiadau iechyd a diogelwch i'r bobl sy'n ymgymryd â'r dasg.

Mae Adra yn parhau i fod yn gyfrifol am brosesu data personol sy'n cael ei rannu gyda chyflenwyr mewn ffordd deg a chyfreithlon. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy osod gofynion diogelu data mewn cytundebau gyda'n cyflenwyr.

Asiantaethau sy'n bartneriaid

Efallai y byddwn yn creu partneriaethau gyda sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân a'r heddlu er mwyn cyflawni ein goblygiadau statudol a dyletswyddau fel landlord. Byddwn yn ymrwymo i gytundeb rhannu data ffurfiol i reoli’r broses ac i sicrhau ei fod yn gyfreithiol. Bydd y cytundeb yma yn cael ei gytuno gan ein Swyddog Diogelu Data cyn ei fod yn cael ei weithredu.

Tenantiaid sy'n cael eu cefnogi

Bydd materion personol tenantiaid yn cael eu trafod gyda’r tîm cefnogi a staff eraill sy'n rhan o les y tenant, fodd bynnag bydd y rhain yn digwydd mewn lleoliadau cyfrinachol. Os bydd oedolyn ifanc yn gofyn i aelod staff drefnu cefnogaeth gan wasanaeth allanol, mae'n rhaid iddynt gytuno i ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol ymlaen llaw.

Bydd datgelu gwybodaeth bersonol heb gydsyniad yn eithriad ac ond yn cael ei wneud os oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny, bod yna orchymyn llys yn bodoli neu lle mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn gymwys.

Cyfnewidfa Rhent

Bydd rhannu eich hanes tenantiaeth trwy’r Gyfnewidfa Rhent yn ein galluogi i weithio’n agosach â chi i reoli eich tenantiaeth bresennol ac yn galluogi Experian i helpu unrhyw landlord a sefydliadau yn y dyfodol i:

- asesu a rheoli cytundebau tenantiaeth newydd ichi gytuno iddynt
- asesu pa mor gadarn yw eich sefyllfa ariannol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau addas ichi;

- rheoli unrhyw gyfrifon sydd gennych yn barod, er enghraifft, adolygu cynnyrch addas neu addasu eich cynnyrch presennol yng ngoleuni eich amgylchiadau presennol;
- cysylltu â chi mewn perthynas ag unrhyw gyfrifon a allai fod gennych ac adennill dyledion sy'n ddyledus gennych;
- gwirio pwy ydych chi a'ch cyfeiriad i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau a gynigir ganddynt;
- helpu i atal trosedd, twyll a gwyngalchu arian;
- sgrinio cynigion marchnata i wneud yn siŵr eu bod yn briodol i'ch amgylchiadau ;
- fel y gall Experian ymgymryd â dadansoddiad ystadegol, dadansoddeg a phroffilio;
- a galluogi Experian i brofi systemau a chynnyrch a gweithgareddau prosesau basdata, fel llwytho data, paru data a chyswllt data.

Os hoffech weld mwy o wybodaeth am y rhain, a deall sut y mae asiantaethau gwirio credyd yn defnyddio ac yn rhannu data rhent fel data biwro (gan gynnwys y budd dilys y mae pob un yn ei geisio) mae'r wybodaeth hon yn cael ei roi yn y ddolen hon: www.experian.co.uk/crain (Hysbysiad Gwybodaeth Asiantaeth Gwirio Credyd) – am gopi papur, cysylltwch â ni neu Experian ar 0115 941 0888

**Diogelwch a chadw data**

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, i sicrhau nad yw'n cael ei ddefnyddio ac nad oes mynediad heb awdurdod iddo, ac nad yw'n cael ei newid na'i ddatgelu. Yn ychwanegol, byddwn yn cyfyngu mynediad i'ch data personol i'r cyflogeion, asiantaethau, contractwyr a thrydydd partïon eraill sydd angen gwybod at ddibenion busnes. Byddant ond yn prosesu eich data personol gyda'n cyfarwyddyd ni ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin gydag unrhyw dorri amod data personol a dybir a byddant yn hysbysu unrhyw reoleiddiwr perthnasol o dorri amod lle mae gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny. Ein hamcan yw sicrhau nad yw staff ac aelodau'r Bwrdd yn camddefnyddio unrhyw wybodaeth gyfrinachol nac yn ei gyfeirio ymlaen yn amhriodol i drydydd parti. Byddwn yn diogelu gwybodaeth bersonol drwy ddefnyddio mesurau technegol, rhoi polisïau ar waith, hyfforddiant staff ac adolygu prosesau yn unol â pholisi dargadw Adra.

Storfa Ddiogel

- Mae ffeiliau papur a chofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw mewn cabinet diogel. Caiff y cypyrddau eu cloi pan na chant eu defnyddio Caiff staff arweiniad ar sut i ymdrin â chofnodion mewn ffordd ddiogel pan cânt eu tynnu o'r swyddfa – er enghraifft wrth ymweld â chartref rhywun.
- Rydym yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth ar ein system gyfrifiadurol yn ddiogel, cywir, perthnasol ac angenrheidiol. Mae yna gyfrinair ac awdurdodi aml ffactor ar bob un o'n cyfrifiaduron ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant llawn ar ein systemau. Mae'r data personol ar ddyfeisiau symudol TG yn finimol ac wedi eu hamgryptio lle bynnag bo

hynny'n bosib ac mae mesurau technegol wedi eu cymryd os bydd dyfais yn mynd ar goll neu'n cael ei ddwyn.

Ymholiadau dros y Ffôn

Pan fydd cwsmer yn cysylltu efo ni dros y ffôn, byddwn yn gofyn iddynt ddarparu darn o ddata er mwyn eu hadnabod (e.e. dyddiad geni, rhif cyfeirnod ayb) er mwyn sicrhau mai dim ond y person cywir sy'n cael y data. Os dymunai tenant i rywun arall gysylltu efo ni ar eu rhan mae angen iddynt gadarnhau hynny i ni yn uniongyrchol neu os yw'n drefniant parhaol, bydd angen cwblhau ffurflen mynediad i wybodaeth bersonol.

Cwynion

Os bydd rhywun yn cysylltu efo ni i godi cwyn ar eich rhan byddwn bob amser yn gofyn am eich caniatad chi yn gyntaf. Gwnawn hyn oherwydd wrth ymateb i'r gŵyn gall y sawl sy'n hawlio eu bod yn eich cynrychioli weld peth o'ch data personol.

Ymholiadau rhent

Os ydych eisiau gwneud ymholiad am eich rhent, e.e. eich hanes talu neu falans eich cyfrif, bydd gofyn i chi ddarparu eich enw, cyfeiriad a chod post, eich dyddiad geni a'r Rhif Cyfeirnod Rhent. Mae gan bob tenant ei rif cyfeirnod rhent unigryw sydd wedi ei nodi ar eich datganiadau rhent. Os nad ydych yn gwybod eich rhif cyfeirnod rhent efallai y byddwn yn gofyn i chi am eich gwybodaeth bersonol er mwyn cadarnhau mai chi yw chi cyn rhoi unrhyw fanylion i chi am eich cyfrif rhent

## Cadw Data

### Am ba mor hir y byddwch yn defnyddio fy nata personol?

Byddwn ond yn cadw eich data personol cyhyd ag sy’n angenrheidiol i gyflawni’r dibenion i ni ei gasglu, gan gynnwys dibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddiaeth, neu adrodd.

I bennu’r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried faint, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posib i niwed o ddefnydd anawdurdodedig neu ddatgelu eich data personol, y dibenion hynny yr ydym yn prosesu eich data personol ac a oes ffordd i ni gyflawni’r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a’r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Yn unol â’r gyfraith rhaid i ni gadw gwybodaeth sylfaenol am ein tenantiaid (gan gynnwys manylion cyswllt, hunaniaeth, Data Ariannol a Thrafodiadau) am 6 mlynedd ar ôl iddynt ddod â chytundeb tenantiaeth i ben.

## Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018

O dan rhai amgylchiadau penodol mae gennych hawliau o dan gyfraith diogelu data mewn perthynas â’ch data personol.

Mae gennych:

- **Yr hawl i ofyn am gael gweld** eich data personol (yn cael ei adnabod fel arfer fel “cais gwrthrych am wybodaeth” ). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o ddata personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi i wirio ein bod yn ei brosesu’n gyfreithlon.

- **Yr hawl i ofyn am gywiro’r** data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i drefnu bod unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir yr ydym yn ei gadw amdanoch yn cael ei gywiro, er efallai y byddai angen i ni ddilysu cywirdeb y data newydd yr ydych yn ei roi i ni.

- **Yr hawl i ofyn am ddileu** eich data personol Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu data personol lle nad oes rheswm da i ni barhau i’w brosesu. Mae gennych yr hawl hefyd gofyn i ni ddileu eich data personol lle’r ydych wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod), lle’r ydym o bosib wedi prosesu eich gwybodaeth yn anghyfreithlon neu lle mae angen i ni ddileu eich data personol i gydymffurfio gyda chyfraith leol. Noder, fodd bynnag, ni allwn bob amser gydymffurfio gyda’ch cais i ddileu am resymau cyfreithiol penodol a byddwch yn cael eich hysbysu am y rhain, pe bai’n berthnasol, ar adeg yr ydych yn gwneud cais.

- **Yr hawl i wrthwynebu prosesu** eich data personol yr ydym yn dibynnu arno er budd cyfreithlon (neu fudd trydydd parti) a bod rhywbeth ynglŷn â’ch sefyllfa neilltuol chi sy’n gwneud i chi ddymuno gwrthwynebu prosesu data ar y sail hon oherwydd eich bod o’r farn ei fod yn effeithio ar eich hawliau sylfaenol a rhyddid. Mae gennych hawl hefyd i wrthwynebu lle’r ydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, efallai ein bod yn dangos bod gennym sail gyfreithlon gadarn i brosesu eich gwybodaeth sy’n drech na’ch hawliau a’ch rhyddid.

- **Yr hawl i ofyn am gyfyngu ar brosesu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol am y tro yn yr amgylchiadau canlynol:
  a) os ydych am i ni sefydlu cywirdeb y data;
  b) lle mae ein defnydd o'r data yn anghyfreithlon ond nad ydych am i ni ei ddileu;
  c) lle mae angen i ni gadw'r data hyd yn oed os nad oes ei angen arnom mwyach gan eich bod chi ei angen i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu
  d) rydych wedi gwrthwynebu ein defnydd o’ch data ond mae angen i ni wirio a oes gennym seiliau cyfreithlon pwysig dros ei ddefnyddio.

- **Yr hawl i ofyn am drosglwyddo** eich data personol i chi neu drydydd parti Bydd yn rhoi i chi, neu drydydd parti o’ch dewis chi, eich data personol ar ffurf sydd wedi’i strwythuro, a ffurf ddarllenadwy i beiriant a ddefnyddir yn gyffredinol. Noder bod yr hawl hon ond yn berthnasol i wybodaeth sydd wedi’i awtomeiddio yr ydych chi wedi rhoi cydsyniad i ni yn y lle cyntaf ei ddefnyddio neu lle’r ydym wedi defnyddio’r wybodaeth i berfformio contract â chi.

- **Yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg** lle’r ydym yn dibynnu ar gydsyniad i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlonedd

unrhyw brosesu a wnaed cyn i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl. Os ydych yn tynnu eich caniatâd yn ôl, efallai na fydd posib i ni roi cynnyrch penodol neu wasanaethau i chi. Byddwn yn eich cynghori ar hyn os ydych ar unrhyw adeg yn tynnu eich cydsyniad yn ôl.

## Gweld eich gwybodaeth

Os ydych yn dymuno ymarfer unrhyw un o'r hawliau a nodir uchod, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data trwy un o'r dulliau a nodir isod. Ni fydd angen i chi dalu ffi i weld eich data personol (nac i ymarfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os ydi'ch cais yn ddi-sail, yn ailadroddus neu yn ormodol. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'ch cais yn yr amgylchiadau hyn.

*Efallai byddwn angen gennych chi*

Efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth benodol i'n cynorthwyo i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad i'ch data personol (neu arfer unrhyw hawliau eraill). Mae hyn yn fesur diogelwch i sicrhau nad yw data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw berson sydd ddim â'r hawl i'w dderbyn. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi am wybodaeth bellach mewn perthynas â'ch cais i gyflymu ein hymateb.

Rydym eisiau sicrhau bod yr wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gywir a chyfoes. Efallai y byddwch yn gofyn i ni gywiro neu dynnu gwybodaeth yr ydych chi'n meddwl sy'n anghywir.

*Cyfyngiad amser i ymateb*

Rydym yn ceisio ymateb i bob cais cyfreithlon o fewn y mis o dderbyn y cais. O bryd i'w gilydd efallai bydd yn cymryd mwy na mis os ydi'ch cais yn arbennig o gymhleth neu os ydych wedi gwneud nifer o geisiadau neu os oes angen eglurhad am eich cais. Yn yr achos hwn, byddwn yn eich hysbysu a'ch diweddaru.

*https://www.adra.co.uk/en/privacy/Newidiadau i'n Hysbysiad Preifatrwydd*

Bydd unrhyw newidiadau i'n hysbysiad preifatrwydd yn y dyfodol yn cael ei nodi ar ein gwefan a lle bo'n briodol, drwy'r newyddlen tenantiaid. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylid nodi nad bwriad ein hysbysiad preifatrwydd yw creu unrhyw hawliau cytundebol na chyfreithiol.

## Sut i gysylltu efo ni

Cysylltwch gyda ni os oes gennych gwestiynau am ein polisi preifatrwydd neu wybodaeth sydd gennym amdanoch chi.

Trwy e-bost GDPR@adra.co.uk

Swyddog Diogelu Data

Adra Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BL

## Pryderon

Mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych o'r farn bod problem gyda'r ffordd y mae Adra yn ymdrin â'ch gwybodaeth. I gysylltu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ffoniwch 0303 123 1113 neu ewch i'r wefan https://ico.org.uk/